Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant (Cyfnod Mamolaeth)**

I gael rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru, ewch i
[www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


**Cymorth ar gyfer Amrywiaeth, Cynhwysiant a Mynediad .......2**

Mynediad, Amrywiaeth a Chynhwysiant ............................... 2

Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg ..................................... 2

**Sut i wneud cais ...........................................................3**

**Y swydd ......................................................................4**

Dibenion y Swydd ......................................................... 4

Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant (Sgiliau a Hyfforddiant) ........ 5

Prif Gyfrifoldebau ......................................................... 7

Y Meini Prawf Sylfaenol ar gyfer y swydd ............................ 10

Dymunol ...................................................................... 11

**Ffilm Cymru Wales .......................................................12**

# Cymorth ar gyfer Amrywiaeth, Cynhwysiant a Mynediad

Rydyn ni'n credu mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydyn ni'n frwd dros ehangu mynediad at y sector sgrin.

## Mynediad, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion b/Byddar, trwm eu clyw, anabl, niwroamrywiol a phobl sydd wedi colli eu golwg.

Cysylltwch â ni i ddweud sut gallwn ni helpu. Er enghraifft, gallwn ni dalu am ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, darparu cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais. Chi fydd yn ein harwain ni.

Cysylltwch â faye@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg

Rydyn ni'n agored iawn i gynigion rhannu swydd a gweithio'n hyblyg. Rhowch fanylion eich cynnig i rannu swydd neu weithio'n hyblyg os yw hynny'n berthnasol.

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

## Sut i wneud cais

Oni bai ein bod wedi cytuno i chi ddefnyddio fformat gwahanol i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol drwy e-bost i Georgina Morgan – georgina@ffilmcymruwales.com – yn nodi pryd ydych ar gael a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y fanyleb isod.

**Cyflwynwch eich cais erbyn 4 Medi 2023.**

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.

Os ydych yn ymgeisydd mewnol sy'n gweithio yn Ffilm Cymru, trafodwch gyda'ch rheolwr llinell cyn gwneud cais.

# Y swydd

## Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant (Cyfnod Mamolaeth)

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Sgiliau a Hyfforddiant |
| **Swydd:** | Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant - Rhan Amser (Cyfnod Mamolaeth) |
| **Yn Atebol i:** | Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant |
| **Lleoliad:** | Cymru. Canolfan y Prosiect: Swyddfa Ffilm Cymru yng Nghaerdydd fel prif ganolfan. Disgwylir gwaith cyfunol o bell ac wyneb yn wyneb, fel y cytunir gyda'r rheolwr llinell |
| **Cyfnod:** | 9 mis: Hydref 2023 – Mehefin 2024 |
| **Cyflog:** | £40,817 y flwyddyn cyfwerth ag amser llawn, a fydd yn addasu'n pro rata ar gyfer y cyfnod yn y swydd a rhan-amser (0.6 cyfwerth ag amser llawn pro rata) y flwyddyn, ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau y flwyddyn, wedi'u haddasu'n pro rata, yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus. |

## Dibenion y Swydd

Cefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes ffilm a theledu yng Nghymru i ddarparu cyfleoedd i hyfforddi a chysgodi, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy, gan hybu twf ac arferion y sector ac olrhain effaith ar yr un pryd. Mae'r swydd hon yn cefnogi unigolion sy'n awyddus i ddod o hyd i wybodaeth a chyfleoedd i ddatblygu, gweithio a chamu ymlaen yn y sector sgrin yng Nghymru.

Bydd rheolwr lleoliadau'r diwydiant yn gweithio i gefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn lleihau bylchau sgiliau'r sector yn gynhwysol dros amser.

Mae'r swydd hon yn gwneud hyn drwy gefnogi unigolion sy'n awyddus i ennill adnabyddiaeth a chyfleoedd yn y diwydiant teledu a ffilm yng Nghymru. Mae ffocws penodol ar weithio gydag unigolion dros gyfnod estynedig a'r tu hwnt i leoliadau gwaith penodol. Bydd y swydd yn ymwneud â chynnydd a datblygiad unigolion ar unrhyw gam yn eu gyrfa.

Y swydd hon yw'r prif bwynt cyswllt â chyfranogwyr y gorffennol a'r presennol, ac mae'n gyfrifol am gynnal ein data a'n systemau ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa. Mae rheolwr lleoliadau'r diwydiant yn cadw llygad ar gyfleoedd ac yn eu rhannu ag unigolion, yn ogystal â chyfeirio at gyfleoedd gan, ac ar gyfer, ein sefydliadau partner, cynyrchiadau a darparwyr hyfforddiant.

Bydd y swydd hon yn cael effaith hirdymor ar gynaliadwyedd y sector sgrin yng Nghymru. Bydd Rheolwr Partneriaethau'r Diwydiant yn cefnogi cynhyrchwyr, sy'n aml yn gweithio gyda chyllidebau cymedrol ac sy'n dlawd o ran amser, i ddatblygu cynlluniau sgiliau sy'n gweithio gyda heriau a chyfleoedd unigryw eu cynhyrchiad. Bydd y cynlluniau hyn yn adlewyrchu anghenion y sector yn ehangach yn eu cyngor i gynhyrchwyr, gan gynnwys yr angen am ffyrdd mwy cynhwysol o weithio yn ogystal â mwy o amrywiaeth. Byddant yn gweithio i gefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn lleihau bylchau sgiliau'r sector, yn hytrach nag ymyriadau hyfforddi ar wahân.

**Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant (Sgiliau a Hyfforddiant)**
Mae Ffilm Cymru yn chwilio am Reolwr Lleoliadau'r Diwydiant profiadol a chyd-gysylltiedig ar gyfer Cymru, sydd â phrofiad o gefnogi hyfforddeion a chynyrchiadau ym maes Ffilm a Theledu, mewn tîm bach, ac o fewn amserlenni tynn.

Bydd Rheolwr Lleoliadau'r Diwydiant yn cefnogi ac yn cysylltu â'n cynyrchiadau sy'n cael eu hariannu ac a fydd yn gorfod nodi a lleoli hyfforddeion gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi ystyrlon ar gyfer, a gyda, ein partneriaid yng Nghymru.

Bydd rheolwr lleoliadau'r diwydiant yn cyfrannu at ymchwil a datblygu fel rhan o'n proses barhaus o ddysgu ac addasu, gan bennu'r ffyrdd mwyaf effeithiol a chynaliadwy o weithio yn y sector ar gyfer y dyfodol.

Mae'r swydd hon yn gweithio'n agos gyda'n tîm sgiliau a hyfforddiant ymroddedig sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu lleoliadau yn y diwydiant a datblygu cyfranogwyr. Bydd y swydd hon yn gofyn am ddealltwriaeth o'r anghenion a'r gofynion sy'n ymwneud ag elfennau galwedigaethol lleoliadau cynhyrchu ac anghenion unigol hyfforddeion a chyfranogwyr wrth iddynt ddechrau ar eu taith i'r diwydiant, gan olrhain a monitro effaith a datblygiad hyfforddeion a chyfranogwyr.

Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio gyda'r rheolwr partneriaethau (sgiliau a hyfforddiant), rheolwr prosiectau (sgiliau a hyfforddiant) a Swyddogion Gweithredol rhaglenni (sgiliau a hyfforddiant), yn ogystal ag unrhyw gymorth gweinyddol ar gyfer y tîm. Bydd yr unigolyn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion cynhyrchu gweithredol yn y tîm talent, a bydd yn cyfrannu at gynllunio cynaliadwyedd ehangach ar draws ein gwaith.

Bydd rheolwr lleoliadau'r diwydiant yn datblygu mecanweithiau i rannu a chyd-ddatblygu anghenion a gwybodaeth cynhyrchu gyda'r adran talent a chreadigol yn Ffilm Cymru Wales er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei rannu a'i gyfleu, bod cyfleoedd yn cael eu manteisio i'r eithaf, a bod heriau a risg yn cael eu nodi.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer sgiliau a hyfforddiant i gyfranogwyr a chynyrchiadau ffilm a ariennir.
- Bod yn gyfrifol yn uniongyrchol am gefnogi cynnydd a datblygiad cyfranogwyr drwy raglenni sgiliau yn Ffilm Cymru Wales.
- Cefnogi'r gwaith o olrhain datblygiad gweithwyr newydd, datblygu a chynnydd hyfforddeion, gan weithio gyda sefydliadau partner a darparwyr hyfforddiant.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu partneriaethau newydd a chyfredol gyda stiwdios, cynyrchiadau ac ymarferwyr yn y diwydiant, ac am fapio gweithgarwch cynhyrchu ledled Cymru cyn iddo ddigwydd.
- Cefnogi a datblygu cronfa o hyfforddeion a chofnod o'r lefel y maent arni, gan ddatblygu mecanweithiau sy'n sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o gyfleoedd wrth iddynt godi.
- Cynnal cyfarfodydd un-i-un a chyfleoedd cyfeirio ar gyfer hyfforddiant, cyflogaeth neu ddatblygiad pellach.
- Gweithio'n agos gyda rheolwr y prosiect i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dilyniant hydredol a mecanweithiau cefnogi ar gyfer ein cyfranogwyr
- Cyfrannu at adrodd a gwerthuso rhaglen Ymchwil a Datblygu media.cymru.
- Rheoli a mapio anghenion sgiliau pob cynhyrchiad hir a ariennir gan Ffilm Cymru, yn ogystal â datblygu log ar gyfer y bylchau sgiliau y mae cynhyrchwyr yn dod ar eu traws yn rheolaidd.
- Mapio cronfeydd o hyfforddeion, cyfranogwyr a phrentisiaid ledled Cymru, gan gynnal perthynas dda â'r

prif ddarparwyr sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru er mwyn bod yn bont i gynhyrchwyr at eu gweithgarwch.

- Cyflwyno neu ganfod hyfforddeion a chysgodwyr yn uniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau os nad yw'r cynhyrchiad yn gallu canfod yr hyfforddeion eu hunain. Gan roi lle blaenllaw i anghenion adnoddau'r cynhyrchiad, yn ystod y flwyddyn, dylai'r hyfforddeion hyn ddod o amrywiaeth o raglenni hyfforddi – yn fewnol ac yn allanol i Ffilm Cymru – a chynrychioli amrywiaeth o lefelau gwahanol (e.e. gweithiwr newydd, prentisiaid, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, camu i fyny). Pan fo hynny'n ymarferol, dylid rhoi blaenoriaeth i hyfforddeion sy'n byw yng Nghymru neu a aned yng Nghymru.
- Datblygu cynlluniau a dogfennau hyfforddeion i sicrhau lleoliadau ystyrlon gyda chymorth
- Bod yn ymwybodol o gasgliad RHWYDWAITH BFI Cymru o wneuthurwyr ffilmiau sy'n dod i'r amlwg ac a allai fod yn addas ar gyfer cyfleoedd cysgodi.
- Datblygu cronfa ddata o hyfforddeion ar draws Ffilm, Cynyrchiadau Annibynnol a Theledu, gan gysylltu â phartneriaid yn y diwydiant pan fo'n berthnasol er mwyn cefnogi cynnydd ar gyfer y rheini rydyn ni'n gweithio gyda nhw
- Cysylltu â'r tîm sgiliau a hyfforddi, gan ddatblygu proses ar gyfer olrhain darpar gyfranogwyr rhaglenni a hyfforddeion o bob rhaglen a chynhyrchiad.
- Datblygu offer/ymyriadau sy'n cefnogi cynyrchiadau yn eu harferion cynhwysol. Canfod a chefnogi cwmnïau cynhyrchu yn eu hymwybyddiaeth broffesiynol a'u datblygiad o arferion cynhwysol a theg.
- Gweithio gyda thimau mewnol Ffilm Cymru Wales, gan gynnwys cyfathrebu, cynaliadwyedd amgylcheddol a chyllid lle bo hynny'n berthnasol

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm Talent, y Swyddogion Cynhyrchu Gweithredol a’r Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant am drafodaethau am sgiliau gyda chynhyrchwyr, sydd â chymeradwyaeth derfynol dros drefniadau hyfforddeion ar y cynhyrchiad gan eu bod yn rhan o set ehangach o gymeradwyaethau.
- Cysylltu â chynyrchiadau sy’n derbyn cymorth, cwmnïau cyfleusterau a sefydliadau eraill yn y sector ynghylch eu rhwymedigaethau i adrodd er mwyn casglu, monitro a llywio’r gwaith o werthuso’r ddarpariaeth hyfforddi a’r hyfforddeion a gaiff eu lleoli ar gynyrchiadau;
- Cysylltu â chynrychiolwyr sgiliau a hyfforddiant cyllidwyr eraill i feithrin gwaith cyd-gysylltiedig strategol os yw hynny’n bosibl, gan fod yn ymwybodol bob amser o orlwytho cynhyrchiad. Bydd pob ariannwr cyhoeddus sy’n cyfrannu at gyllideb ffilm yn gofyn am rai cyfleoedd hyfforddi a chysgodi fel amodau i'w buddsoddiad, ac mae’n bosibl y bydd ganddynt eu cronfeydd eu hunain o hyfforddeion.
- Diweddaru cronfeydd data cynhyrchu Ffilm Cymru, a chyfrannu at adroddiadau chwarterol ein bwrdd ac adroddiadau blynyddol.
- Cyfrannu at werthusiad Ffilm Cymru o’u dull peilot o ymdrin â sgiliau ar gynyrchiadau a ariennir yn 22-24.
- Cynrychioli’r cwmni mewn cyfarfodydd, gwyliau a digwyddiadau sgiliau a gyrfaoedd, ar gais eich rheolwr llinell.
- Cyflawni’r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy’n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru ac sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a’r sector yn ehangach

- Hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn unol â'n [Cynllun gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant]
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol neu sydd wedi'u dirprwyo gan eich rheolwr llinell.

**Y Meini Prawf Sylfaenol ar gyfer y swydd**

- Adnabyddiaeth gadarn a lefel dda o brofiad ymarferol o weithio gyda chynyrchiadau ym maes Ffilm a Theledu yng Nghymru.
- Adnabyddiaeth ragorol o swyddi'r sector ar draws teledu a ffilm
- Adnabyddiaeth ragorol o anghenion sgiliau a hyfforddiant yn y sector sgrin yng Nghymru.
- profiad amlwg o hyfforddi NEU brofiad o weithio gyda newydd-ddyfodiaid ar gynhyrchiad, gan ddarparu cymorth proffesiynol yn y sector sgrin;
- 'Rhywun sy'n galluogi': rhywun sy'n datrys problemau ac yn gallu asesu a datblygu heriau'n annibynnol
- Rhywun sy'n dda am drefnu, byddwch chi'n gallu dangos eich bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r gallu i weithio ar draws nifer o bartneriaid mewn arddull matrics, ar amrywiaeth o lefelau, gan ddeall amcanion partneriaid a'u prif nodau;
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sydd â diddordeb mewn dechrau a chynnal gyrfa yn y diwydiannau creadigol;
- Profiad o weithio a chyfathrebu â thrawstoriad eang o bartneriaid prosiect ar amrywiaeth o lefelau;

- Gallu defnyddio rhaglenni Microsoft Office, yn enwedig Excel.

**Dymunol**

- Profiad a dealltwriaeth o'r sector sgrin a'r celfyddydau'n ehangach
- Rhuglder yn y Gymraeg (ar lafar ac ar bapur).
- Adnabyddiaeth a dealltwriaeth o rôl mudiadau cymunedol a/neu'r trydydd sector a chyrff cyhoeddus
- Profiad o weithio ym maes Cynhyrchu Teledu a Ffilm yng Nghymru
- Tystiolaeth amlwg o rwydweithiau ar draws y sector sgrin yng Nghymru.

## Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau o Gymru ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn i gyd fod yn falch ei bod yn perthyn i ni. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu sefyllfa ffilm yng Nghymru a'r tu hwnt. Creu amgylchedd lle gall ffyrdd mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu.

Cynnwys pobl o bob oed a gallu mewn dysgu creadigol Datblygu gweithlu sgrin y dyfodol drwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi, Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a mentrus a'u gwneuthurwyr, o'r cyfnod cynnar Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru

Rydyn ni'n rheoli cyllid y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain, yn ogystal â chodi a rheoli rhagor o arian gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith yn cysylltu'n agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018, fe wnaethom lansio ein Cynllun Strategol 2018-2024, sydd ar gael yma.